YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF I.] IONAWR, 1924. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

ODDIAR Y TWR.

DYDDIAU GWELL I DDYFOD.

CRIST A'I ANGHRISTIAU.

PENRHIW.

SALMAU EDMWND PRYS.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

C. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

Mourning Cards...

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1924. [CYF. XXIV. RHIF I.

AR ADEN FFYDD.

GALW'R MOR.

Eto'n ol i Geredigion
Arw ei thir mewn hiraeth af,
Draw lle gorwedd lladdedigion
Mawn y rhôs ym min yr haf;
A thra safaf gynt lle sefais,
Egyr gorwel ddirgel ddor;
Mwyn yw cofio'r man y cefais
Gyntaf olwg ar y mor,
Ar y mor!

Yno'm denir gan hudoledd
Aur a phorffor pen y bryn,
Haf hir-felyn, mor fioled,
Heulog wawr ar hwyliau gwyn;
Lle gwna'r grugieir loches dawel,
Lle gwna'r gwenyn gwyllt eu stôr,
Y dragywydd droiog awel
Sonia mwy am swyn y mor,
Swyn y mor!

Pan wasgaro dwylaw Hefin
Flodau fyrdd o las y nef,
Yno af i'm hen gynefin
Eto draw o drwst y dref;
Fwyned ydyw fin diwedydd!
Dwyfol gân dihafal gôr,
Araul adeg hwyrol 'hedydd
Glywir mwy,—a galw'r mor,
Galw'r mor!

SARNICOL.

ODDIAR Y TWR.

YMAE adegau ym mywyd pob dyn pan y'i cludir, ar adenydd dychymyg, yn anwrthwynebadwy yn ol i'r gorffennol. Yr ydym, y pryd hyn, mewn un ystyr, yn ail-fyw ein bywyd. Nid yr un achlysur a bair inni wneud hyn ymhob achos; y mae'r achlysuron yn amrywio'n fawr. Gan nad beth yr achlysur, fe ddaw'r fath ar brofiad i ran pob dyn yn awr ac eilwaith. Yr wyf, er enghraifft, yn fynych iawn, cyn ymneilltuo o honof i gysgu, ar ol bod yng nghwmni rhai o ddynion mawr yr oesau a fu drwy eu llyfrau, wedi syrthio i'r hyn a ellir ei alw'n freuddwyd effro. Yr wyf, y pryd hyn, am ennyd, yn byw ym myd ysbrydoedd y gorffennol. Y mae hyn, yn ddiameu, yn brofiad cyffredin iawn.

***

Ai ni ddaw profiad o'r fath hyn i'n rhan, weithiau, ar adeg cydiad dwy flwyddyn—diwedd un a dechreu'r llall? Rhywbeth arwynebol yw ein rhaniad ni o amser. Diwedd blwyddyn, dechreu blwyddyn: termau cyfleus, o ddyfeisiad dyn, yw'r rhai hyn a'u cyffelyb. Ond y maent, i'r meddwl dynol, ar gyfrif ei gynefindra â hwynt, yn dermau a ddynodant rywbeth sylweddol iawn. Wrth ddynesu o honom at derfyn blwyddyn, fe ddeffroir ynom ryw gymaint o ddifrifwch; with sangu o honom dros y trothwy i'r flwyddyn newydd, fe lenwir ein calon gan loniant a gobaith Fe ddaw teimladau o'r fath hyn i'n rhan ni i gyd ar adeg diwedd a dechreu blwyddyn—oddieithr i ran y dyn hollol anystyriol; ac ychydig iawn y dosbarth hwn.

***

Belled ag y mae a fynnom ni ag amser, y gorffenol, yn ddiameu, sy'n apelio atom gryfaf. Y mae'r dyfodol yn guddiedig rhagom. Ond fe wyddom rywfaint am y gorffennol; a diddorol iawn, a phoenus weithiau, yw'r hyn a wyddom. O daflu ein golwg yn ol i'r hen oesoedd, fe welwn ddynion a benywod yn chwareu eu rhan yn y ddrama ddynol fawr. Y mae enwau llu mawr o honynt yn adnabyddus inni; fe'u hystyriwn fel cyfeillion, er eu bod yn byw (rai o honynt) mor bell yn ol. Ar adegau, fe ddeuwn i gyffyrddiad agos â hwynt. Y mae'r cyffyrddiad hwn rhyngom ni a dynion mawr y dyddiau gynt yn un o'r profiadau cyfoethocaf o bob dylanwad daionus a dyrchafol y gall dyn ei fwynhau.

***

Yna, i ddod yn nes atom, o daflu golwg yn ol dros dymor byr ein bywyd ni, fe ddaw i'n cof lu o gyfoedion a fu'n cyd-deithio â ni am ennyd fer; ond y rhai, o un i un, a droisant allan o'r llwybr, gan ein gadael fwy-fwy unig o flwyddyn i flwyddyn. Y mae yna adegau pan ddaw'r rhai hyn yn ol atom, fel y dywed Longfellow yn ei "Footsteps of Angels," megis ymwelyddion o fyd yr ysbrydoedd. Yn eu plith y mae lluaws a fu'n annwyl inni—tadau a mamau, brodyr a chwiorydd, plant, cymheiriaid bywyd, cyfeillion mynwesol a ffyddlon. Unwaith y trown ein golwg yn ol i'r gorffennol, fe ddaw ffurfiau dynol o'r fath hyn i awyrgylch ein bywyd, ac fe adnewyddir y gymdeithas a dorrwyd. A bendithiol iawn yw'r profiad.

Ar adegau ol-edrychol o'r fath hyn, hefyd, fe'n harweinir i sylwi ar y llwybrau y teithiasom hyd-ddynt. Beth ddaw i'r golwg? Pob math ar brofiadau—rhai melys; gwelwn lawer o obeithion heb eu sylweddoli, o ymdrechlon anorffennedig, o fethiantau, o amherffeithterau. Dim ond yr ochr dywell i'r ddalen, fodd bynnag, yw hyn: fe welwn, hefyd, lawer o obeithion wedi eu sylweddoli, o ymdrechion llwyddiannus, o fwriadau wedi eu cario i weithrediad, o weithredoedd nad oes angen inni wrido o'u plegid. Nid yw llwyddiant di-dor yn eiddo i neb; nid methiantau llwyr, ychwaith, yw'r oll o'n hymdrechion. Rhyw gymysgedd rhyfeddol yw'r hanes—llwyddiant ac aflwyddiant, codiad a chwymp, gobaith a digalondid, ffydd ac amheuaeth. Ar adegau neilltuol, megis cydiad dwy flwyddyn, fe gyfyd y cwbl o flaen llygaid meddwl yr ystyriol.

* * *

Beth am dani, ynte? Ydyw hyn, neu a all hyn fod, o ryw fudd neu fantais inni? Os diwedda'r cwbl gyda'r dwyn i'r cof, nid yw'r budd yn fawr, nid yw'r fantais yr oll a allai fod. Pleserus yw'r cofio. Eithr cyn y gall y cofio ateb y diben goreu, fe ddylai beri inni droi ein golwg tua'r dyfodol, a guddir rhagom gan len mor dywell mor bell ag y mae gwybodaeth yn myn'd, ond a oleuir yn rhyfeddol pan edrychir arno yng ngoleu ffydd a gobaith. Tua'r dyfodol y mae golwg dyn i fod yn bennaf. O edrych yn ol, y ddedfryd, yn rhy fynych yw—mai gweision a morwynion anfuddiol fuom; ond fe allwn wneud yn well yn y dyfodol—fe allwn wneud rhagor tuag at sylweddoli'r dyfodol gwell y llafuriodd ac yr aberthodd ein tadau gymaint er ei fwyn.

* * *

D'weded Arglwydd Birkenhead a phobl o gyffelyb dras a fynnont, delfrydwr yw dyn i fod; nid un â'i olwg tua'r llawr, ond un a gylyma ei gerbyd wrth ryw seren—chwedl Emerson; nid *pessimist* ond *optimist*; nid un a gân yn ddi-derfyn :—

" M feddyliais yn y bore,
Y buaswn amser maith cyn hyn,
Wedi concro fy ngelynion,
Ac yn byw ar Sïon fryn;
Sŵn y rhyfel
Sy'n y wlad lle 'r'wyf yn byw,"

gyda phwyslais ar y ddwy linell olaf; eithr un a gân—

" Dros y bryniau tywyll, niwlog,
'N dawel, f'enaid, edrych draw,
Addewidion sydd i esgor
Ar ryw fore braf gerllaw;
Nefol Jiwbil,
Gâd im' weld y bore wawr,"

gyda'r pwyslais ar y ddwy linell olaf eto. Sain dyn ymron torri ei galon yw sain derfynol y pennill cyntaf; sain dyn llawn o ffydd a gobaith yn neshâd " bore wawr " dydd gwell yw sain derfynol yr ail. A dyna'r sain a gynhyrcha'r gweithiwr o blaid dyfodiad dydd gwell. Nid yw'r *pesimist* byth yn weithiwr.

Beth, ynte, am y dyfodol? Cynhyrfus iawn yw'r byd; eithr dod yn nes i'w le yn raddol y mae. Ni fu'r gyflafan fawr a ddygwyd i derfyn tua phum' mlynedd yn ol yn hollol ddiffrwyth o ddaioni. Un o'i phlant hi yw Cynghrair y Cenhedloedd—sefydliad ag y mae gobaith y dyfodol yn dibynnu cymaint arno? Oes dyfodol iddo? Dibynna hyn ar y werin bobl ymhob gwlad. Y mae'r gwledydd o ddifrif yn paratoi ar gyfer y rhyfel nesaf—hynny yw, y bobl sydd dda ganddynt ryfel yn y gwledydd. Yr unig ffordd i lestreirio'r bobl hyn yn eu cynlluniau ydyw gwneud Cynghrair y Cenhedloedd yn allu na faidd neb ei wrthwynebu. A'r werin bobl ymhob gwlad yn unig fedr wneyd hyn. Nid yw'r werin bobl, eto, wedi dechreu sylweddoli eu gallu.

***

Tra'n cyffwrdd â'r mater hwn, ni allaf ymatal rhag rhoi datganiad i'm teimlad o edmygedd o waith ardderchog yr Yswain o Landinam. Mewn amser ac allan o amser, heb arbed na thraul na llafur, y mae wedi gwneud ei ran yn ardderchog iawn i ddeffro cydymdeimlad â'r sefydliad dyngarol hwn—Cynghrair y Cenhedloedd. Eisiau rhagor o'i fath sydd—ymhob gwlad. Yna, ni cheid rhyfel byth wedyn. Angen mawr Ewrop heddyw, ie, angen mawr y byd i gyd, yw heddwch.

***

Un arall a weithiodd drwy ei oes bir o blaid heddwch oedd y diweddar Dr. John Clifford. Ni fu gan dduwies heddwch erioed well pleidiwr nag ef. "Yn erbyn rhyfel â'i holl gais, yn erbyn trais y beilchion"; fe ellid yn hawdd osod y llinellau hyn ar ei gofadail fel disgrifiad cywir o'i fywyd. Fel pleidiwr heddwch y mae, er wedi marw, yn llefaru eto. "Da, was da a ffyddlon."

***

Tra'n sôn am Dr. Clifford, daw i'm cof y mudiad a elwid y "*Down Grade Movement*," pryd y cyhuddodd Mr. Spurgeon ddosbarth lluosog o'i frodyr yn y weinidogaeth Fedyddiol, o wyro oddiwrth y ffydd Fedyddiol. Yr oedd Dr. Clifford yn un o honynt. Y mae'r ddadl honno, a fygythiai rannu'r enwad yn ddwyblaid, erbyn hyn wedi ei llwyr anghofio. Ond ni fu heb gryn lawer o effaith ar safle ddiwinyddol nifer luosog o Fedyddwyr; fe wnaeth y galfiniaeth eithafol a nodweddai ddiwinyddiaeth yr enwadau hynny ymron yn anmhosibl. Yn y cysylltiad hwn, adroddir y stori ddiddorol a ganlyn am Mr. Spurgeon a Dr. Clifford. "Beth yw'r rheswm, Dr. Clifford," meddai Spurgeon wrtho un tro, "na allaf eich diddyfnu oddiwrth eich heresi Arminaidd?" Atebodd Clifford:—"Y rheswm yw hyn—nad wyf yn eich gweld chwi ond rhyw unwaith bob mis, tra y darllenaf fy Meibl bob dydd." Ateb da iawn, onide?

***

Colled fawr iawn yw colli dynion o'r fath hyn. Y mae bywyd Prydain Fawr yn lanach, yn burach heddyw, oblegid bod Dr. Clifford wedi byw ac wedi gwasanaethu ei genhedlaeth gyda'r fath arddeliad a brwdfrydedd am dymor mor faith. SYLWEDYDD.

DYDDIAU GWELL I DDYFOD.

Nid wyf broffwyd na mab i broffwyd, ond gyda miloedd o'm brodyr yn y byd pechadurus hwn credaf yn ddi-ysgog fod gan Dduw fendithion newydd ar gyfer ei blant ar y ddaear, ac y bydd iddo eu rhoddi i ni pan y byddwn wedi gwneuthur ein hunain yn addas i'w derbyn. Credaf fod yn ei ddwfn fwriadau Ef Fyd o Gyfiawnder, lle na fydd un yn anghyfiawn tuagat ei gyd-ddyn ; Byd o Ddigonedd, lle na fydd tlodi a llygredigaeth yn blino neb ; Byd o Frawdoliaeth, lle bydd Llwyddiant yn sylfaenedig ar Wasanaeth, a lle rhoddi'r parch ac anrhydedd i gymeriad yn unig ; Byd o Heddwch lle y bydd Trefn yn sylfaenedig ar Gariad, ac nid ar Rym Arfau Cnawdol. Daw, fe ddaw breuddwydion proffwydi Duw i ben ryw ddydd, a cheir dyddiau gwell i'r ddynoliaeth er yr holl flinderau a'r profedigaethau. Y mae rhyw arglwydd o Ben y Byrcwy wedi tystiolaethu yn ddiweddar mai ffolineb a rhywbeth gwaeth na hynny yw coleddu syniadau o'r fath hyn. Yr oeddwn i wedi arfer credu nad oedd llawer o gannibaliaid i'w cael yn awr hyd yn nod ar randiroedd tywyllaf ein byd ; ond deallaf y gall olion hen oesau barbaraidd lechu a goroesi eu cyfnod mewn cilfachau ; eithr i'r amgueddfa y'i cyrchir y rhan fynychaf. Yn y *British Museum* y dylasai ei fawrhydi o Byrcwy fod, ac nid yn Nhy'r Arglwyddi. Nid oedd y brawd wedi clywed, mae'n debyg, am werinwyr cadarn Sir Aberteifi, neu ni fuasai'n beiddio llefaru peth mor ddi-garitor a di-dduw. Ond fe ddaw i glywed heb fod yn hir. Dywed ef a'i dylwyth fod Rhyfela yn angenrhaid blaenfynediad, ac yn cynyrchu rhai o elfennau goreu y natur ddynol. Haerant y byddai byd heb ryfel yn fyd marw, yn fyd heb ymdrech, heb ddewrder, ac heb ramant. Haerant y byddai i'r ddynoliaeth suddo fel corff difywyd i gors bydredig, onibae am Ryfel i'w chadw'n egniol. Ond beth yw'r gwirionedd? Dewrder, teyrngarwch, hunan-aberth, egnïon corfforol, meddyliol, ac ysprydol—nid cynyrchion rhyfel mohonynt, ond elfennau yn adeiladwaith moesol y ddynoliaeth. Nid Rhyfel a'u creodd, nid ymladd roddodd fodolaeth iddynt yn enaid yr hil. Yr oeddent yn oblygedig yno o'r dechreuad. Ni wnaeth Rhyfel ond eu defnyddio at ei phwrpasau ei hun. Ffyddlondeb milwr i'w ddyletswydd, teyrngarwch dyn tuag at ei gadben neu ei arweinydd ; dewrder bachgen mewn brwydr pan yn achub ei gyfaill o safn angau —nid creadigaethau rhyfel yw'r pethau godidog hyn, ond cynnysgaeth y Creawdwr i'w blant ; ac ni wna rhyfel ond eu cymeryd a'u defnyddio i'r dyben o ladd a dinystrio. Dyma fel yr ymresyma Rhyfel :— "Gwn fod y pethau mawrfrydig hyn yn perthyn i'r natur ddynol. Denaf hwynt i'm gwasanaeth, a mawrhâf fy hun yn y gwaith. Mynaf eu benthyg i gario allan fy amcanion ymerodrol." Dyna fel y mae Rhyfel wedi gwneud o'r dechreuad ; ac y mae dweyd y bydd i'r elfennau godidog hyn farw allan os y daw terfyn ar ryfela yr un fath a dweyd y daw daioni i ben pan y trechir drygioni. Gadewch i ni roi difyniad o waith hanesydd o fri er dangos y modd y mae symudiadau a sefydliadau wedi gwneyd defnydd o'r elfen hunan-aberthol sydd yn natur pob plentyn Duw. Meddai Lecky :—"Y mae'n bwysig iawn i sylwi ymha gyfeiriad y symuda yspryd hunan-aberth, oblegid ar angerddoldeb y teimlad yna y dibyna safon foesol y cyfnod, ac, ar ei gwrs, dyfodol crefydd yn y byd. Unwaith gwnaeth arwain rhyfelwyr Ewrob i gludo dinystr ac anghyfanedd-dra i furiau Caersalem, i forio meusydd Palestina a gwaed y miloedd lladdedigion, er mwyn sicrhau ychydig o giwriositis hanesydd-

ol i'r pererin defosiynol. Dro arall siglodd Ewrob i'w sylfeini mewn rhyfeloedd crefyddol, er sicrhau goruchafiaeth rhyw eglwys neu gredo. Unwaith bu iddo gludo miloedd i'r mynachlogydd, i lurgunio'u cyrff, i ladd eu serchiadau, i fyw mewn tlodi a chaledi yno." Y mae'r sefydliadau hyn wedi colli eu gallu, ond y mae yspryd hunan-aberth yn fyw yng nghalon y ddynoliaeth o hyd. Gwelsom ef yn ei ogoniant yn ein cenedl yn 1914. Ond fel cynt y mae gobeithion goreu calonnau plant dynion wedi troi yn siomiant ac yn alar; ond y mae yna bendefyniad newydd yn dod i fodolaeth yn ewyllysiau gwerinwyr Ewrob heddyw, a dyma fyrdwn eu cri:—"O Dduw Rhyfel, mynnaist bethau mwyaf cysegredig bywyd i'th wasanaeth. Cipiaist ddewrder ein meibion, mynnaist eu brwdfrydedd ieuanc, eu delfrydiaeth aruchel, eu dynoliaeth eangfrydig. Denaist ein gwyddonwyr, hawliaist lafur cenedlaethau o athrylith a dyfais; tynaist i'th wasanaeth dynerwch ein merched a'n mamau—pethau cysegredicaf ein bywyd, gwesgaist hwynt i fyddinoedd, ond o'th fwg a'th ddinystr y mae gwawr. Gweledigaeth Newydd yn torri arnom, ac yn y dyfodol yr ydym yn myn'd i roddi yr holl a feddwn ar allor gwasanaeth Un arall—Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd, er difa clefydau a blinderau cnawd dynol, er lliniaru poen corff, er mwyn cyfoethogi, prydferthu, ac amddiffyn buddiannau uwchaf teulu dyn ar y ddaear; er mwyn taenu cyfiawnder ac ewyllys da rhwng dynion, er mwyn codi preswylwyr y cwteri a'r tai afiach, a'u gosod mewn hawddfyd a dedwyddwch, er troi cleddyfau yn sychau, a gwaewffyn yn bladuriau, ie, er mwyn gwasanaethu dyn, a gogoneddu Duw."

"Ond," meddai rhyw lordyn, "beth bynag ddywedwch, ni fedrwch hoelio Rhyfel yn ei arch. Y mae hynny yn amhosibl tu yma i'r bedd." Paham? A ydych yn credu yn Nuw? A ydych yn credu yng Nghrist? A ydych yn credu yng ngallu Daioni a Gwirionedd? Edrychwch dros dudalednau Hanes, ac fe ddeuwch o hyd i'r ffaith amlwg hon. Fe gewch allan fod y gair Amhosibl wedi ei ysgrifennu gan y mwyafrif ar draws pob delfryd aruchel, pob diwygiad moesol, pob ymgais i bregethu ffydd uwch a gwell, a chrefydd ragorach a charedicach. Ond beth yw dedfryd hanes? Mae *pioneers* dydd y pethau bychain mewn un genhedlaeth yn cael gwarogaeth anfarwolion gan y genhedlaeth sydd yn canlyn. Y mae heresi un oes yn dyfod yn gredo sefydlog yr oes ar ol hynny. Amhosibl ar y pryd, ond nid am byth. Y mae yna yfory, y mae yna "drydydd dydd" yn hanes y pethau hyn, ac fel y mae byw'r Arglwydd, fe enillir buddugoliaethau mwy eto gan y Gwirionedd. Fe ddaw'r amhosibl a'r anghredadwy i ben.

Y mae rhywbeth yn y byd uwchlaw dyfais dyn a methiantau cymdeithas. Nid yw galluoedd ysprydol y Nef ynghwsg Nid yw Duw wedi cefnu ar ei greadigaeth Gwir iawn yw'r hyn ddywedodd y Cad-lywydd Foch am Napoleon. Sylwai fod dynion yn priodoli cwymp y rhyfelwr hwnnw i wahanol achosion, megis ei gadfridogion, ei afiechyd, ei oedran, a phethau ereill. "Ond," meddai Foch, "nid oes yr un ohonynt yn iawn. Y gwir achos oedd i Napoleon Bonaparte anghofio bod Duw i'w gael, ac fod uwchlaw y person unigol y genedl, ac uwchlaw'r genedl y Ddeddf Foesol, ac mai nid Rhyfel yw'r pwrpas uwchaf, oherwydd uwchlaw Rhyfel y mae Heddwch." Na ddywedwn beth sydd bosibl neu amhosibl yn y byd, oblegid wrth wneuthur hynny nid ydym ond gosod terfynau dynol i nerthoedd tragywyddol. Y mae ein hoes ni, beth bynag yw ei gwendidau, yn teimlo un peth yn ddwfn. Y mae yn teimlo bod yna wahaniaeth dirfawr rhwng yspryd Rhyfel ac yspryd Cristionogaeth Iesu. Nid yw'r teimlad hwn wedi bod yn gryf yn mynwes yr Eglwys, gydag eithrio'r

tair ganrif gyntaf. Am bymtheg can' mlynedd y mae Cristionogaeth a Rhyfel wedi cerdded fraich ym mraich yn y byd. Sylwer ar ddyfarniadau y Tadau Eglwysig ar y pwngc. Meddai Awstin, "Beth sydd yn ddrwg mewn Rhyfel? Yr ofnus achwyna ar Ryfel, ac nid y crefyddol." Dyna eiriau un o bileri yr Eglwys Foreuol. Meddai Sant Athanasius eto, "Nid yw gyfreithlawn i ladd, ond y mae lladd gelynion mewn rhyfel yn deilwng o bob clod." Meddai Luther, y protestant, "Y mae rhyfel yn beth dwyfol, ac mor angenrheidiol i'r byd a bwyta ac yfed." Gwelir fod rhyfel, felly, yn cael ei ddeibyn gan y Tadau fel rhywbeth nad oedd yn anghydweddol a Christionogaeth. Ond heddyw y mae yspryd newydd wedi ymddangos. Y mae Cydwybod Newydd wedi dod i'r golwg. "Y mae rhyfel," meddai pobl y dyddiau hyn, "yn anghristionogol. Peth barbaraidd yw. Nid yw ond moesoldeb y goedwig mewn gwedd arall." Dyna'r cri heddyw. Ac y mae yn llawn gobaith, oblegid ei ystyr yw fod y Cenhedloedd, yn eu hargyfwng, yn cael gweledigaeth o rywbeth uwch a gwell. Y mae "newyn a syched" am Gyfiawnder ac Ewyllys Da yn ymddangos yn y byd. Y mae yna ddymuniad newydd am fyd gwell, a bywyd hawddgarach. Y mae dynion yn dechreu gweld y gagendor rhwng bywyd fel y mae a bywyd fel y dylasai fod, ac fel y gallai fod pe rhoddid egwyddorion Crist mewn gweithrediad.

Unwaith cerddai Cristionogaeth a Chaethwasiaeth gyd'u gilydd trwy'r canrifoedd fel cyfeillion. Nid oedd neb yn teimlo fod dim allan o le yn y gyfeillgarwch. Ond daeth y dydd pan godwyd y waedd, "Y mae caethwasiaeth yn beth croes i grefydd Crist. Y mae Cristionogaeth yn fethiant. Nid yw wedi medri rhoi terfyn ar gaethwasiaeth." O'r foment y rhoddwyd mynegiad i'r cri yna, ni chafodd caethwasiaeth lonydd hyd nes y'i bwriwyd allan o'r byd. Bu deffroad dyngarol newydd, ac yn fuan rhoddwyd terfyn ar ormes y *slave-driver*. Ac heddyw y mae yna ddeffroad tebyg ynglyn a Rhyfel. Y mae Cristionogaeth Iesu a Rhyfel yn cael eu dwyn wyneb yn wyneb, ac nid oes ynnwyf betrusder yng nghylch y fuddugoliaeth. Fe fwrir Rhyfel o'r byd fel y bwriwyd caethwasiaeth. Nid gwaith hawdd fydd, ac nid gwaith a ddaw i ben mewn un genhedlaeth nac un canrif, ond, er hynny, y mae mor sicr a bod dydd yn canlyn nos y tarewir yr hoelen olaf i arch Rhyfel ryw ddydd; ac fe'i cleddir i beidio adgyfodi byth mwy i flino dynolryw.

D. Cellan Evans.

Northampton.
Rhag. 21ain, 1923.

CRIST A'I ANGHRISTIAU.

A oes neb ohonom nad yw wedi ceisio myned i mewn i feddwl Crist, a deall ei feddyliau, ei deimladau, a'i amcanion mewn perthynas i'w genhadaeth? Oddiwrth yr awgrymiadau geir yn yr Efengylau, oni ymdrechasom ffurfio darlun cywir o'r Iesu, Mab y dyn,—gan dreiddio mewn i'w feddwl a'i galon? Mae yna ffenestri drwy y rhai y gallwn edrych i mewn i'w feddwl: un ohonynt yw Hanes ei Demtiad; un arall,

ei Ddyfyniadau o'r Hen Destament ; yn drydedd, ei Ddamegion am Deyrnas Nefoedd ; yn bedwaredd, yr hyn a ddywed am ei Ddyfodiad Dyfodol.

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain hynny am y rhai nid oes gennym nemor i ddim hanes, dychmygwn ei weled ef yn derbyn goleuni newydd, a dyfod yn gynefin a sylweddau y byd ysbrydol, ac a deddfau y llywodraeth ddwyfol.

Uwchlaw pawb dynion eraill, yr oedd y gallu greddfol yn fwy effro ynddo—y gallu hwnnw drwy'r hwn yr edrychwn o'r ddaear i'r Nefoedd. Am yr holl ddeng mlynedd ar hugain hyn, nid oes gennym ond yn unig yr hysbysrwydd iddo "gynnyddu mewn doethineb, a chorffolaeth, ac mewn ffafr gyda Duw a dynion." Yr oedd ei ddoethineb a'i ddaioni, fel eiddo dynion eraill, yn dyfiant. Pwy mor bell yr oedd hefyd yn oruwch-naturiol, nis gwnawn yn awr ymofyn.

Ond yr oedd Rhagluniaeth Ddwyfol, yn ei gwaith yn ei ddewis ef i fod yn ffigiwr ganolog yr hil ddynol, a'n harweinydd dyfodol, wedi trefnu'r amgylchiadau. Ganed ef o deulu Semitaidd, o'r hwn yr oedd yr holl grefyddau o duedd gatholig wedi deillio, darparodd dirgel Ragluniaeth y cyfansoddiad pur oedd i fod yn was i'r enaid rhyfeddol hwn. Cafodd ei addysg gan natur, ysbrydoliaeth, a chof-ysgrifau lluosog ei genedl. Yn raddol datblygwyd ynddo y gallu i weled a'r llygad ysbrydol mor glir a chywir ag y gwel dynion eraill a'r llygad corfforol, fel pan, y siaradai am ddeddfau Duw, a ffeithiau y nefoedd, nid oedd yna'r un petruster, na dim yn aneglur yn ei ymadroddion. Llefarai, gan hynny, gydag awdurdod—awdurdod gwybodaeth. Gwelai fod Duw yn Un ; mai Yspryd oedd ; ei fod yn Wirionedd a Chariad ; ei fod yn Gariad, am ei fod yn Dad Cyffredinol ; yn caru ei holl blant yn gyffelyb, yn caru y da a'r drwg ; yn awyddus i faddeu ; yn gwahodd y pechadur i edifarhau a dychwelyd ; yn gwrando gweddi ; yn rhoddi ei Ysbryd Sanctaidd i'r neb a ofynnai am dano. Gwelai hefyd, ei fod yn Wirionedd ; ei fod yn Sanctaidd ; ei fod yn gweithredu'n unol a deddf ; fod ei ddeddfau'n unol a deddf ; fod ei ddeddfau'n ddigyfnewid a thragwyddol am eu bod yn rhan o'i hanfod ef ei hunan.

Pe gofynnid i ni sut y gwyddom fod Iesu'n gweled y pethau hyn mor eglur, atebwn, yn gyntaf, gwelwn ef ar dudalennau'r Efengylau. Gorfodir ni i ddywedyd, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Mae ei ddamegion, a'i Bregeth ar y Mynydd, gweithredoedd, a geiriau Iesu, yn dwyn tystiolaeth i'r un gwirionedd, ei fod ef yn *un sicr ohono ei hun.* Pe delai athraw mewn seryddiaeth atom, yr hwn fyddai gartref yn ei wyddor, yn gynefin ym mhob ffaith, ac yn gallu sylwi i ni'r oll, ni byddai arnom eisiau'r un prawf yn gynnwysedig yn y wybodaeth ei hunan. Felly hefyd am Iesu.

Ond gwneir y prawf hwn yn hollol anwadadwy, am fod y gwirioneddau a welwyd felly gan Iesu wedi eu gwireddu gan brofiad dynolryw. Mor bell ag mae'r ddeddf foesol ag a addysgwyd gan Iesu wedi eu dodi mewn ymarferiad, profodd ei hunan fel yn cytuno a threfn y cyfanfyd.

Mae'n rhaid ei bod yn adeg ofnadwy i brofiad Iesu, pan y dangoswyd iddo, neu y teimlodd mai efe o bawb bodau dynol a ddeallai amcanion Duw, ac mai efe, gan hynny, oedd y goruchwyliwr i'w cwblhau hwynt! Dywedir i Newton, ar ol rhes hir o gyfrifiadau gyda golwg ar symudiadau y bodau wybrennol, a phan yn profi cywirdeb ei dybiaeth ar gael ei gwireddu, arhosodd, wedi ei lethu a'i frawychu ar doriad y gwirionedd mawr hwn i'r byd. Ond gymaint yn ehangach oedd y datguddiad ddaeth i Iesu, pan y gwelodd ef ei fod yn Ffordd at Dduw, yn Wirionedd i'r byd, yn Fywyd i'r enaid, a thrwy'r hwn yr oedd teyrnas Dduw, ym mhob man, i ddod, a'i ewyllys i gael ei gwneud ar y ddaear fel yn y nefoedd! Wedi sylweddoli hyn, y cam nesaf ym mhrofiad Iesu oedd darganfod y cyfryngau penod-

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR • YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL XXIII.
1923.

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

IONAWR.

Angladd yn y dref, 12.
Ar Aden Ffydd, 1.
Blwyddyn Arall, 1.
Dadorchuddio Meini Coffa, 6.
Hanes am William Rathbone, 10.
Manion ac Hanesion, 16.
Marwgofion, 13.
Nodiadau Gwyddonol, 8.
Priodasau, 13.
Trysorfa YR YMOFYNYDD, 11.
Y Ffydd Undodaidd gyda golwg ar Ddyn, 2.
Ydyw neu Nac Ydyw, 10.

CHWEFROR.

Ar Aden Ffydd, 17.
Arthur Gyda Ni, 17.
Manion ac Hanesion, 31.
Marwgofion, 29.
Oddiar y Twr, 21.
Priodasau, 28.
Tadoldeb Duw, 24.
Y Ffydd Undodaidd gyda golwg ar Dduw, 18.
Y Cyfarfodydd Chwarterol, 27.

MAWRTH.

Ar Aden Ffydd, 34.
Arholiad yr Ysgolion Sul, 45.
A ydyw'r Byd yn Gwella, 39.
Brawdoliaeth Dyn, 40.
Emyn, 34.
Hyfforddi Plentyn, 43.
Luxor, 37.
Manion ac Hanesion, 48.
Marwgofion, 46.
Priodas, 46.
Y Ffydd Undodaidd gyda golwg ar Iesu, 34.

EBRILL.

Ar Aden Ffydd, 49.
Arweinyddiaeth Iesu, 56.
Chwilio am Dduw, 52.
Dau Bregethwr Mawr, 54.
Gethsemane, 49.
Manion ac Hanesion, 63.
Marwgofion, 62.
Pregeth, 58.
Priodas, 62.
Rhyddid, 50.
Y Gwanwyn, 53.
Ysprydion, 53.

MAI.

Arholiad yr Ysgol Sul, 72.
Cymanfa Ganu, 77.
Iachawdwriaeth trwy Gymeriad, 74.
Manion ac Hanesion, 80.
Marwgofion, 78.
Oddiar y Twr, 69.
Priodasau, 78.
Y Cyfarfodydd Chwarterol, 76.
Yn y Gynhadledd ym Manceinion, 65

MEHEFIN.

Ar Aden Ffydd, 81.
Ar Lannau Gloywon, 81.
Blaenfynediad, 82.
Dwyfoldeb Iesu, 91.
Manion ac Hanesion, 95.
Marwgofion, 93.
Oddiar y Twr, 84.
Pregeth, 87.
Priodasau, 93.

GORFFENAF.

Ar Aden Ffydd, 97.
Bedydd, 105.
Cymanfa Ganu, 98.
Gwir Ddyfodiad Crist, 102.
Hanner Can' Mlynedd yn ol, 104.
I Ba Le y Ffoaf o'th Wydd, 97.
Manion ac Hanesion, 109.
Marwgofion, 106.
Ymweliad a'r Hybarch R.J.J., 100.

AWST.

Ar Aden Ffydd, 113.
Byr Goffa am Cerngoch, 120.
Cynnydd Dyn, 113.
Gweledigaethau y Bardd Cwsg, 115.
Manion ac Hanesion, 128.
Marwgofion, 125.
Oddiar y Twr, 114.
Undeb y Merched Undodaidd, 123.
Urdd y Deyrnas, 122.
Y Garreg Wen a'r Enw Newydd, 124.
Y Pechod Gwreiddiol, 118.

MEDI.

Annerchiad Llywydd y Gymdeithas Undodaidd, 130.
Ar Aden Ffydd, 129.
Byr Goffa am Cerngoch, 141.
Croesaw i'r Bardd Cadeiriol, 137.
Cymdeithas yr Ysgol Sul, 140.
Cynnydd Dynolryw, 133.
Dysgwyl, 135.
Er Cof am Mrs. Jones, Aldergate, 144.
Lleisiau'r Fynwent, 129.
Manion ac Hanesion, 144.
Marwgofion, 143.
Priodas, 144.
Y Cyfarfodydd Blynyddol, 138.

HYDREF.

Ar Aden Ffydd, 145.
Briwsion i Gywion Llen, 150.
Cipdrem ar Anfarwoldeb, 157.
Congl yr Awen, 160.
Gohebiaeth, 155.
In Memory, 158.
Llythyr Diddorol, 156.
Manion ac Hanesion, 159.
Marwgofion, 159.
Priodas, 157.
Rhodio wrth Ffydd, nid wrth Olwg, 146.
Sylfaen Wyddonol Gweddi, 148.
Y Proffwyd a'r Mel Gwyllt, 153.

TACHWEDD.

Ar Aden Ffydd, 161.
Briwsion i Gywion Llen, 172.
Byr Goffa Cerngoch, 168.
Cyrddau'r Hydref, 164.
Fendigaid Ysguboriau, 161.
Manion ac Hanesion, 176.
Marwgofion, 174.
Oddiar y Twr, 165.
Priodasau, 164.
Rhodio wrth Ffydd, 162.
Ystyr a Gwerth Swper yr Arglwydd, 169.

RHAGFYR.

Ar Aden Ffydd, 177.
Bore ar y Bryn, 178.
Briwsion i Gywion Llen, 181
Byr Goffa Cerngoch, 184.
Gurnosa, 189.
Manion ac Hanesion, 190.
Priodas, 190.
Sefyllfa o Brawf ynte o Addysg yw Bywyd, 186.
Y Drych, 183.
Y Physygwr, 177.

edig ; ac ar y rhan ymá o'i brofiad, teiffl stori y temtasiwn oleuni mawr. Gwelai Iesu y rhwystrau lawer oedd ar ei ffordd. Gwyddai'r hyn oedd mewn dyn, gwelai y gwrthwynebiad oedd i ddod oddiwrth offeiriaid a phobl, oddiwrth hen arferion, hunanles, balchter, coelgrefydd, dallbleidiaeth, bydolrwydd, cnawdolrwydd, caledwch calon. Eto gwyddai fod ganddo allu digonol i orchfygu y gwrthwynebiadau hyn, a'i demtasiwn oedd, defnyddio cyfryngau bydol i Amcan Sanctaidd,—temtasiwn i'r hwn y mae cynifer o eneidiau ardderchog wedi rhoddi'r ffordd, wedi gwerthu eu genedigaeth-fraint dragwyddol gwirionedd am botes o fantais fydol.

Gwyddom sut yr aeth Iesu drwy'r treial ofnadwy, a sut y daeth ef allan o'r ffwrnes heb arogl tân ar ei ddillad. Gwirionedd syml a chariad oeddynt i fod ei unig gyfryngau. Ond, pan y penderfynodd felly, canfyddai nad oedd ef i weled, yn y bywyd hwn, ddyfodiad ei deyrnas. Canfyddai ei bod yn debyg y caffai ei osod i farwolaeth, ac yr ymddangosai ei holl ymdrechion yn ofer. Ond taflai ei olygon i'r dyfodol pell, a gwelai ei hunan yn dod i lywodraethu fel y Crist yn y canrifoedd pell ; am y dydd a'r awr ei ddyfodiad nis gallai un meddwl meidrol wybod. Ond yr oedd ef i ddyfod, nid yn gorfforol, ond yn nylanwad ei ddysgeidiaeth. Yn y ffydd berffaith hon yr ymadawodd ar ol ei ymdrech arteithiol olaf, yn hon gofynuai i Dduw, ai nid oedd yna ryw ffordd, hyd yn oed eto, drwy'r hon y gallai'n awr sefydlu ei deyrnas, a chafodd nad oedd yr un, meddai, "Gwneler dy ewyllys," ac ymadawodd.

Daeth yr atgyfodiad, yr hyn oedd nid yn unig dyfod yn ol i'r ddaear, ond myned i fyny ac ymlaen i gyflwr uwch, o ba le y gallai ymddiddan yn fwy annwyl a bywiol ag eneidiau ei ddisgyblion na phan oedd ef gyda hwynt. Felly, ar ol llanw eu heneidiau'n llawn o'i wirionedd a'i gariad, ymadawodd yr allanol, i ddod yn fwy a mwy presenol i gydwybod a chalon y byd o oes i oes.

Trown yn awr oddiwrth y Crist at yr anghristiau. Tra'n siarad am ei ddyfodiad ysbrydol dyfodol, rhoddodd Iesu y rhybudd hwn i'w ddisgyblion ac i'r holl Eglwys: "Gochelwch rhag i neb eich twyllo chwi, canys daw llawer yn fy enw i, gan ddywedyd, myfi yw Crist, a thwyllant lawer . . .—Yna os dywed neb wrthych, wele, llyma Crist neu llyma, na chredwch: canys cyfyd gau-Gristiau, a gau-broffwydi, ac a roddant arwyddion mawrion, a rhyfeddodau, hyd oni thwyllant, pe byddai bosibl, yr etholedigion. Am hynny, os dywedant wrthych, wele, y mae efe'n y diffaethwch ; nac ewch allan ; wele, yn yr ystafelloedd y mae ; na chredwch. Oblegid fel y daw y fellten o'r dwyrain ac y tywynna hyd y gorllewin ; felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn."

Pwy ydynt anghristiau hanesiaith? Ai unigolion yn unig,—twyllwyr tlodion a diflannol yr awr,—neu ai nid drychfeddyliau, egwyddorion, a sefydliadau, a godant i fyny'n yr Eglwys, gan wrthwynebu ysbryd a gallu'r efengyl, ydynt? Felly y cyfrifwn ni hwynt Nid anghristiau y byd yw pechod y byd na'i anghreniniaeth. Nid anffyddiaeth na bydolrwydd ydynt, ond egwyddorion a chyfundrefnau o fewn i'r Eglwys ydynt, yn honi mai Crist ydynt. Nid yw pechod yn honni mai Crist yw, ac nid yw anffyddiaeth ; ond mae'r egwyddorion hyn. Dywedant "Crist ydyw," "a thwyllant lawer." Yn ol y wir efengyl, mae'r enaid yn ddiogel pan y llenwir a'r Crist Ysbrydol, Crist wedi ei ffurfio oddi mewn,—Cariad a gwirionedd Duw, ond mae'r anghristiau hyn yn gofyn gwarogaeth iddynt hwy eu hunain.

C.C.

(*Pw barhau*).

PENRHIW.

[Capel bychan yw Penrhiw, ger Castellnewydd-Emlyn. Ychydig sôn glywn am dano y dyddiau presennol, ond credwn y darllenir yr hanes a ganlyn am dano gan lawer gyda dyddordeb. Fe'i hysgrifenwyd rai blynyddau yn ol gan y diweddar Mr John Bowen, Llwyn Einon, yr hwn a'i danfonodd i mi. Yr wyf wedi cyweirio rhai gwallau a gwneud rhai ychwanegiadau.—R.J.J.]

"Traddodiad yw fod pregethu yn agos i'r fan lle saif y ty cwrdd presennol, o dan goeden fawr, o leiaf ddeng mlynedd cyn adeiladu'r capel, a'r pregethwr oedd y Parch. D. Lloyd, Brynllefrith, gweinidog Llwynrhydowen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Davies, Castell Hywel . . . .

Yr hanes cyntaf a gawn am y capel, yr hwn sydd yn sefyll hyd heddyw yw, yn y Lês a gawd Mehefin 13, 1777, oddiwrth David Mathias, plwyf Llangeler, i'r Parch. David Lloyd, Brynllefrith, y gweinidog. *Ymddiriedolwyr*: Enoch Jenkins a James Evans. Amser y Lês hon yw 500 mlynedd, a'r rhent oedd chwe' cheiniog y flwyddyn, os byddai y gofyniad am dano. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, 1779, bu farw Mr. Lloyd ynghanol ei ddyddiau, ei colled a galar mawr; ac ar ei ol daeth y Parch. D. Davies, Castell Hywel, a gweinidog llafurus iawn y bu am flynyddau . . . . . Yn y flwyddyn 1798, cawn fod Lês arall wedi ei thynu o dan law David Mathias, diweddar Tynewydd, plwyf Bangor, i'r Parch. D. Davies, Castell Hywel. *Ymddiriedolwyr*: John Evans, Glanrhyd; David Simon, Cilgynydd; Samuel Amos, Penddol; Thomas Pugh, Drefach; Daniel Davies, ffarmer; John Evans, Cwrt; John Evans, Tygwyn a'r Cryngae; Samuel Evans, Gelynen, Cilrhedyn; Thomas John, Pwll-yr-heyrn, Llandyfriog. *Tystion*: Griffith Jones, Pantmarchog; John Thomas, Cwm Mawr. Amser y Lês hon, sydd mewn grym heddyw, yw 500 mlynedd, a'r rhent os bydd gofyniad am dano, yw swllt y flwyddyn. Cofrestrwyd hi yn Llundain Mai 13, 1872, gan W. D. Jeremy, yswain.

Bu'r weinidogaeth yn llewyrchus iawn dan ofal Mr. Davies. Tua'r flwyddyn 1800, cynorthwyid ef gan y Parch. David Griffiths [Griffith ?], o Lechryd, a'r Parch. D. Lewis Jones, Clynadda; ac yn nes yn mlaen gan y Parch. William Rees, Triale, ac oddeutu 1820 gan y Parch. John Davies, Llanybri, mab y Parch. David Davies, Llanybri. Bu Mr. Griffiths, Llechryd, farw yn 1818, ac yn ei le fe ddaeth Mr. Davies, Maespwll . . . Tua'r flwyddyn 1825, bu gwrthwynebiad i'r Mr. Davies hwn yn Llechryd, ar gyfrif ei fod yn yfed i ormodedd; ac felly daeth yn ymrafael yn Penrhiw yn ei gylch, trwy ddweyd os nad oedd yn addas i fod yn Llechryd, nad oedd yn addas i fod yn Penrhiw. Felly fe ddarfu i eglwys Penrhiw ymryson, ymranu, ac ymgyfreithio yn nghylch pwy oedd i ddal meddiant ar y capel. Yn mhen ychydig rhoddwyd y mater o flaen *referee*, sef Thomas Howells, yswain, Glaspant. Barnai ef mai bob yn ail Sabbath yr oedd y ddwy blaid i addoli yn y capel, gan feddwl wrth hyn y dygai hwynt at eu gilydd. Fel hyn y bu am tua deng mlynedd. Yn ystod yr amser hwn bu gweinidogion Annibynol yn gweinyddu i'r blaid wrthwynebol, hyd nes iddynt roddi eu hawl i fyny yn 1836, ar farwolaeth eu blaenor, Mr. Samuel Evans, Aberhalen. Oddiar hyny y mae'r capel yn meddiant yr aelodau presennol yn llwyr. Ychydig ar ol yr ymrafael, ymadawodd y Parch. W. Rees

Triale, a'r gymydogaeth, a thrwy hyny bu'r weinidogaeth dan ofal y Parch. John Davies, Llanybri, yn benaf, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. David Evans, Castell Hywel, hyd tua'r flwyddyn 1848, pryd y cynorthwyid ef yn achlysurol gan y Parch. Peter Joseph, yr hwn yn y flwyddyn 1857 a gyfarfyddodd a damwain angeuol oddiwrth ei geffyl ei hun wrth ei arwain i'r dwr. Dyn ieuanc gobeithiol iawn, a mawr oedd yr hiraeth a deimlwyd ar ei ol.

Enwau prif aelodau Mr. Davies oedd :—John Thomas, Ty Gwyn ; Thomas Williams, Cilgynydd ; Daniel Sylvanus, Blaenffin ; John Evan Samuel, Cwrt ; Evan Evans, Blaencwm ; David Evans, Blaenfforest ; Evan Jones, Pantyfallten ; Joseph Samuel, Castell Newydd ; Thomas John, Pwllyrheiyrn ; David Jones, Pengraig ; Samuel Jones, Milestone ; Evan Jones, Shadog.

Er wedi marw, y mae enwau rhai o'r gwragedd da fu yn ffyddlon gyda'r achos yn haeddi eu cofnodi, megis Mrs. Parry, Llwyncadfor ; Mrs. Davies, Ffynon Dydur ; Mrs. Hughes, Tyddyn, ynghyd ag amryw eraill. Ar ol amser y Parch. John Davies, bu Penrhiw a Phanteg o dan ofal y Parch. Titus Evans, Caerfyrddin, hyd ei farwolaeth, yr hwn a gymerodd le Chwefror 29, 1864. Colled fawr a deimlodd y Eglwys ar ei ol. Ar ei ol ef daeth dyn ieuanc, genedigol o Ferthyr Tydfil, o'r enw William Hughes, o Goleg Caerfyrddin, 1861. Yn 1863, fe symudodd i weinidogaethu yn nghapel S. S. Darbishire, yswain, Penmaenmawr. Wedi ymadawiad Mr. Hughes, bu y ddwy eglwys heb un gweinidog sefydlog, ond fod y Parch. W. Thomas, Llandyssul, yn ymweled a hwynt yn fisol fel gweinidog, a'r Parch. Wm. Rees, Rhydygwin ; John Davies, Alltplaca, a R. C. Jones, Cribin, yn talu ymweliadau misol bob un ei dro. Cynorthwyid weithiau hefyd gan fyfyrwyr o Goleg Caerfyrddin.

Yn haf y flwyddyn 1870, gosodwyd pen newydd ar y capel ar draul o £30.

Ymddiriedolwyr y Capel, Tachwedd 11, 1870 : Evan Evans, Tygwyn ; John Evans, Castellnewydd ; Thomas Jones, Danyffynon ; Samuel Jones, Penygraig ; David James, Bachygwyddil ; D. Samuel, Castellnewydd ; James Jones, Fedwen ; John Jones, Cross Hands ; John Jones, Cryncae ; Daniel Jones, Blaenmarchog ; hefyd am tua dwy flynedd bu y Parch. Benjamin Thomas, gweinidog y Bedyddwyr, yn pregethu yn fisol yn Penrhiw.

Fel hyn y cynaliwyd y gwasanaeth yn mlaen, gan ymweliadau achlysurol gweinidogion, hyd Medi 6, 1871, pryd yr ordeiniwyd Mr. Walter Jenkins, o Goleg Caerfyrddin, yn weinidogion canlynol : — Y bore, Parchn. Wm. Rees a Wm. Thomas ; y prydnawn, y Parchn. John Davies a David Evans.

Yn 1823, cafwyd mynwent at y Ty Cwrdd trwy Lês, dyddiedig Ionawr 10, oddiwrth J. Jones, Ffynondydur, a D. Davies, Pantygwenith, Llanfair-trefhelygen, i'r Parchn. D. Davis, Castellhywel, a John Davies, Llwynrhydowen, yn nghyd a deuddeg o ymddiriedolwyr. Amser y Lês yw 999, a'r Rhent yw coron, yr hwn sydd yn cael ei dalu yn flynyddol. *Tystion* : W. Jones, Bercoed Isaf, Bangor, ac Evan Evans, Ty Gwyn."

[Cymharer yr hyn a geir yn Hanes Llangeler a Phenboyr ; Students of Presbyterian College, Carmarthen].

SALMAU EDMWND PRYS.

Yn ystod y ddeuddeng mis diweddaf, rhoddwyd lle amlwg i Edmwnd Prys yn y papurau a'r cyfnodolion Cymraeg. Haeddai wneuthur ohonom hyn i'w goffa ar gyfrif y gwasanaeth dirfawr a wnaethpwyd ganddo nid yn unig i'w genhedlaeth ei hun, ond hefyd i'w genedl trwy gydol y tair canrif a aeth heibio er pan fu farw.

Ei Salmau Cân yn bennaf sydd wedi cadw ei enw yn wyrddlas. Meddai gymwysterau arbennig ar gyfer y gorchwyl. Yr oedd yn ŵr o gynheddfau cryf a gwybodaeth eang, a'i gydnabyddiaeth â'r ieithoedd Hebraeg a Chymraeg mor sylweddol ag i'w wneuthur yn gynorthwywr cyfaddas i'r Esgob Morgan mewn gwaith mor bwysig a chyfieithu'r Hen Destament. Heblaw hynny yr oedd yn fardd medrus, fel y profa ei gywyddau. Gan nad oedd y mesurau rhydd wedi dyfod i fri y pryd hwnnw, y mesurau caeth a dderbyniai sylw, a hwynthwy a gyfrifid yn weddus i feirdd dysgedig. I'r dosbarth hwnnw y perthynai Prys, ac ofer honni ei fod yn gymaint o feistr ar y mesurau rhydd ag oedd ar y mesurau caeth. Dengys y gyfrol benbwygilydd ei fod yn troi mewn cylch na theimlai yn gartrefol ynddo. Yn ei Lythyr at y Darllenydd Ystyriol, dyry dri rheswm dros beidio a chanu yn y dull urddasol :—

1. Rhag iddo wrth gadw'r mesurau golli deall yr ysbryd.

2. Oherwydd na allai cynulleidfa gyd-foliannu Duw wrth ganu cywydd neu awdl.

3. Er mwyn hyfforddiant plant a phobl annysgedig na allent ddysgu cywydd.

Cyn ei drosiad ef o Salmau Israel, prin iawn oedd emynau at wasanaeth y Cysegr yn ein hiaith. Parodd ymdeimlad o ddwyster yr angen a theilyngdod y ddarpariaeth a wnaeth id i'w chyflenwi i'r Eglwysi ei derbyn yn awchus, a chyhoeddwyd wyth argraffiad o fewn hanner canrif.

Er deall cynnwys a ffurf a nodweddion y Salmau Cân, nid digon yw ymborthi ar y tameidiau y gwelodd golygwyr llyfrau emynau yn dda iw gosod ger ein bron. Rhaid cymeryd dogn ar ol dogn, a chnoi cil yn hamddenol ar ol pob dogn. Dyna'r ffordd i wneuthur cyfiawnder ag arlwy mor gyflawn.

Nid yw pob rhan yn gyfwerth i'r neb fyddo wedi dysgu'r grefft o ddarllen, a thebyg y bydd clodydd geiriog a difyfyr ambell areithiwr neu erthyglydd yn ddiflas i archwaeth darllenydd o'r fath. Fel ei gymrodyr llai enwog, nid yw Prys yn rhydd oddiwrth ddiffygion, ond cofier nad yw cydnabod hynny yn tynnu o gwbl oddiwrth werth ei bethau rhagorol. O ran celfyddyd wele ychydig o'i gwpledau perffeithiaf :—

Ti wnaethost ddyn, o fraint a phris,
Ychydig is angylion. (viii. 5).

Ar waith dy ddwylaw is y nef
Y gwnaethost ef yn bennaeth.
(viii. 6).

Bendigaid fyddo'r Arglwydd nef,
Fe glybu lef fy ngweddi. (xxviii. 6).

Y sawl a edrych arno ef,
A llewyrch nef eglurir. (xxxiv. 5).

O profwch, gwelwch, ddäed yw
Yr Arglwydd byw i'r eiddo.
(xxxiv. 8).

Pan adeilader Seion wych,
A hon yn ddrych i'r gwledydd.
(cii. 16).

Gyda chennad y Golygydd gadawaf y gweddill o'm nodiadau hyd y tro nesaf.

WM. GRIFFITHS.

Penparcau, Aberystwyth.

MARWGOFION.

YN gynar fore Sul, Tachwedd 25ain, ar ol cystudd maith a chaled, Mary Anne Davies, Penbanc, Capel Dewi, Llandyssul, yn 50 oed. Y Mercher dilynol daeth tyrfa luosog o berthynasau a chyfeillion ynghyd i hebrwng ei gweddillion i fynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Er's blynyddoedd nid oedd yr ymadawedig o iechyd cryf, a mynych y bu raid iddi gymeryd seibiant oddiwrth waith yn herwydd anhwyldeb. Ni feddyliodd neb er hyny y cai ei chymeryd ymaith megis ynghanol ei dyddiau. Yr oedd yn aelod yn Eglwys Llwynrhydowen er yn blentyn, a chredwn fod i'r achos le cynhes yn ei chalon. Erbyn heddyw mae ei lle'n wâg Credwn fod y "lle gwag" bob amser yn galw ar i rywrai geisio ei lanw. Wrth ei cholli hi collodd llawer gyfeilles ag oedd yn anwyl ganddynt. Gadawodd fam, llystad, brawd, a llawer o berthynasau ereill, i wylo ei cholli. Na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith, ond fel rhai yn credu y "Cawn gwrddyd yn y Nef."

TACHWEDD 28, yn 84 mlwydd oed, David Evans, Alltgoch, Cwmnewydd. Tua phythefnos cyn ei farwolaeth cafodd anwyd, yr hyn a barodd iddo fod yn anhwylus; er hyny nid oedd yn ymddangos fod un perygl, ond ar y dydd uchod bu farw yn ddisymwth. Nid oedd ond tua deg mis oddiar pan y rhagflaenodd ei briod ef, a chafodd y ddau fywyd maith gyda'u gilydd. Magodd deulu lluosog, ac arosodd rhai o'r plant gydag ef, a chafodd hwy, wedi i henaint ei oddiweddyd, yn rai a wnaethant eu rhan yn dda tuag ato. Yr oedd yn nodedig am ei ysbryd siriol a'i dymher lawen, a diau iddo dreulio bywyd dedwydd iawn. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Eglwys Llanwenog. Pregethwyd a chyflawnwyd yr oll o'r gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Capelybryn; gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Parch. T. Jones, Neuadd, Llanybyther, a chynorthwywyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwmnewydd. Gadawodd bedwar mab, tair merch, ac amryw o wyrion, ynghyd ag un chwaer, mewn galar ar ei ol.

AR yr 28ain o Dachwedd, yn 94 oed, bu farw James Evans, Cribyn, ar ol nychtod o amryw fisoedd. Bu'n adnabyddus iawn i gylch eang yn ei ddydd, ar gyfrif ei gysylltiadau masnachol; ond yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yn dod fwyfwy cyfyng fel y diflannai ei genhedlaeth ef o un i un, ac y tyfai cenhedlaeth newydd. Mwynhaodd fywyd hir a iach; a thaeuliodd yr oll yng nghymydogaeth Cribyn, a bron yr oll yn y pentref. Diddorol iawn oedd ei glywed yn adrodd hanes yr hen amserau yn y pentref a'r gymydogaeth—hanes y bobl fu'n cyd-oesi ag ef, llawer o honynt yn gymeriadau difyr; hanes hen arferion y gymydogaeth; hanes yr achos Undodaidd yn y lle—yn gyntaf y bwthyn tô gwellt, ar ol hynny y tŷ presennol, a adeiladwyd pan oedd ef oddeutu tair neu bedair ar hugain; hanes ei weinidogion fuont yn gwasanaethu yma yn ei ddydd ef—Emlyn Thomas, Tan Gimel, Evans Maesymeillion, y Parchn. R. C. Jones, ac E. W. Davies; tuag at yr oll, mynwesai deimladau parchus iawn. O'r uchod nid oes yn fyw yn awr ond y Parch. R. C. Jones, o'r hwn yr oedd yn hoff iawn, a da iawn oedd ganddo ei weld yn talu ymweliad achlysurol ag ef Ar ol marw'r diweddar Dewi Hefin, ef oedd yr unig ddolen gysylltiol olaf rhwng y genhedlaeth bresennol a Daniel Ddu a Reuben. Nid oedd ond prin pedair oed pan fu Reuben farw yn 1833; eithr dwedai fod

ganddo gôf clii iawn am dano. Yr oedd ef yn byw yn Nglanbran, a Reuben yn Nhanrallt—dau le oddeutu dau led cae oddiwrth eu gilydd ; ac un tro aeth gyda'i fam i weld Reuben pan oedd yn glaf i farw. Dyna'r unig dro y'i gwelodd. Ond yr oedd ganddo gôf byw iawn pa fath un ydoedd. Parhaodd yn graff o olwg a chlyw hyd y diwedd. Medrai ddarllen heb wydrau, a chlywai bobpeth yn ddidrafferth. Tra gallai, mynychai'r capel yn gyson. Ni fu ynddo eleni (llynedd yn hytrach) gymaint ag unwaith. Ond ni leihaodd ei ddiddordeb yn yr achos hyd y diwedd. Llonnid ef gan bob newydd da am dano, blinid ef gan bob newydd drwg. Gadawodd ar ei ol dair merch (gydag un o honynt y cartrefai), a nifer luosog o wyrion a rhai gorwyrion. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y capel ddydd Sadwrn dilynol, y gweinidog, Parch. D. Evans, yn gwasanaethu, gyda chynorthwy'r Parch. R. C. Jones, yn y capel ac ar lan y bedd.

Dydd Iau, Tachwedd 29, yn 78 mlwydd oed, Esther, gweddw y diweddar Samuel Davies, Penybanc, Trebanos Fel y gwelir uchod, daeth yr ymadawedig bron i ffin yr addfed oed o bedwar ugain. Blaenodd ei hanwyl gydmar arni flwyddi lawer yn ol. Hawdd fydd cofio am dani. Hawdd fydd gweld ar lenni'r cof ei hawddgarwch teg, megis gwen huan bore o Fehefin ; hawdd fydd cofio ei charedigrwydd, a'i pharodrwydd nos neu ddydd ; hawdd fydd cofio ei chynghorion a'i geiriau calonogol ; canys yr ydoedd hi, fel y tystiodd rhywun, yn wraig a mam dda yn wir ystyr y gair. Ni fu'r fordaith heb ei thonnau, hefyd, a'r cwch bregus at dirugaredd y cenllif heriol, ond trwy ymdrech a dyfal-barhad, cadwyd y bad rhag taro o hono yn nanedd y graig. Ie, hawdd fydd cofio am dani. Bu'n ffyddlon iawn gyda'r bywyd crefyddol, a mynychodd y moddion hyd y medrai, tu fewn i ychydig o amser cyn yr ymddatodiad, yr hwn a ddaeth yn dra disymwth. Claddwyd hi y Llun, Rhag. 3, with Gellionen, y Parch. D. G. Rees yn gweinyddu, a'r Parch. D. Johns, Gosen, yn cynorthwyo.

Ar y 3ydd o Ragfyr, yn 70 oed, bu farw Evan Evans, Ysgoldy, Cribyn, yn ddirybudd iawn. Nid oedd ei iechyd yn dda er's tipyn, ond ni feddyliodd neb fod un perygl. Bore'r dydd uchod fe'i cafwyd yn farw yn ei wely. Gadawodd ar ei ol un brawd a thair chwaer, gydag un o'r rhai y cartrefai yn y lle uchod, ynghyd a pherthynasau agos eraill. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn nyffryn y Rannell, ac yr oedd yn un a fawr hoffid gan ei adnabyddiaeth. Cymerodd ei gladdedigaeth (anghyhoedd) le dydd Mercher dilynol ym mynwent y Capel. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, Parch. D. Evans.

MANION AC HANESION.

Trebanos—Yn ddiweddar ymwelwyd a "Dysgwylfa," cartref Mr. a Mrs. Davies, Trebanos, gan Mr. Wyndham Lewis, Ysgrifenydd y Cynghor Lleol, Pontardawe, a Mr. Daniel Morgan, Cofrestrydd, a'r Henadur D. T. Williams, Y.H., fel dirprwywyr y Cynghor, i gyflwyno i Mr. Davies ddarlun hardd ohono ei hun, fel arwydd o'u hedmygedd ohono yn bersonol, ac fel arwydd hefyd o'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth hir a ffyddlon i'r Cynghor. Ar lafn pres ar y darlun ceir a ganlyn yn gerfiedig :—"Presented to David Davies, Esq., on his retire-

ment, as a mark of esteem and respect, after 36 years faithful service as Rate Collector for the Rhyngdwyglydach Parish. Subscribed for by the Officers of the Pontardawe Union and Rural District Council, 14th August, 1923."

CRIBYN.—Ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr, cynhaliwyd gwasanaethau agoriadol yn y Capel uchod, ar ol ei atgyweirio. Yr oedd cyfarfodydd dydd Llun, hefyd, yn gyfarfodydd diolchgarwch. Gwasanaethwyd prynhawn Llun gan y Parch. L. Williams, Alltyplaca; yn yr hwyr, gan y Parchn. L. Williams ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Arweiniwyd y gwasanaeth hwyrol gan y Parch. Conwil Evans. Cafwyd pregethau grymus a chynnulliadau lliosog. Diolchir yn wresog i bawb am eu cymorth ariannol.

BWLCHYFADFA. — Nos Fercher, Rhagfyr 12fed, cafwyd *Social Tea* yn y lle hwn, a noson hwylus ryfeddol ydoedd yn ol barn pawb ag oedd yn bresennol. Amcan y wledd oedd sicrhau arian i drysorfa "Cymdeithas y Merched" yn y lle, a deallwn fod yr arian i gael eu gwario ar beth ag y mae cynnulleidfa'r Bwlch mewn gwir angen am dano. Cariwyd yr oll o'r draul ynglyn a'r Tê hwn gan Mrs. Jones, Dolgerdd, fel y mae'r oll o'r elw a wnawd wrth y drysau i fynd i'r Drysorfa. Datganwyd diolchgarwch y gynulleidfa i Mrs. Jones am ei haelioni gan y Parch. E. O. Jenkins, a'r Mri. T. G. Thomas a J. R. Thomas.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Sadwrn, Rhagfyr 15fed, cafwyd Gwledd o Dê yn y lle uchod, o dan nawdd "Cymdeithas y Benywod." Trefnwyd a rhoddwyd y Tê gan aelodau'r Gymdeithas, a chwareu teg iddynt, nid arbedasant draul na thrafferth i'w wneud yn llwyddiant. Gan fod y tywydd yn ddymunol a'r noson yn oleu, daeth torf dda ynghyd i fwynhau o'r danteithion, a deallwn—canys rhaid oedd i bob un dalu am ei dê—fod swm dda wedi ei sylweddoli. Deallwn hefyd fod yr arian i'w gwario i ddiben da.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nos Iau, Tachwedd 15fed, dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol, daeth y "Brython Glee Party," o Blasmarl, i fynny i roddi inni gyngherdd o gân a llên o radd anarferol uchel. Cafwyd adroddiadau, unawdau, chwareuadau ar y crwth a'r *piano*; ac yn goron ar yr oll, cydganau gan y Parti, a chanu canmoladwy, dan arweiniad Mr. Isaac Evans, Plasmarl. Cyfeiliwyd gan Mri. Isaac E. Hopkin, Trebanos; C. Jones a Miss Butler, Plasmarl. Mr. Jenkin Davies, Penygraig, oedd yn llywyddu.——Yn yr Ysgoldy, nos Fercher, Tachwedd 21ain, gan yr un gymdeithas, darllenwyd papur gan Mrs. Hannah D. Morgan, Bwthygelynen, ar "Deborah." Siaradodd amryw ar bwyntiau godasant o'r papur, sef hawl wleidyddol a chrefyddol y fenyw, a'i lle yng ngwahanol gylchoedd bywyd. Llywyddwyd gan Mrs. Mary Edwards.——Yn y Graig nos Sul Rhagfyr 2, a'r gweinidog yn arwain, a Mri. D. H. Morgan, W. J. Bowen, Trebanos, a D. W. Thomas, Gellinudd, yn gyfeilwyr, cafwyd ein cyfarfod adrodd trimisol. Awd trwy raglen dda iawn, a phawb yn teimlo mai bendith oedd bod yn bresennol. Gofalwyd am y rhaglen gan Mr. Hopkin Jones.——Yn y Graig eto nos Fawrth, Rhagfyr 4, dan lywyddiaeth Mr. Daniel John, Y.H., Glyncoch, cafodd yr Eglwys gyfle i gynal cyfarfod ymadawol i Mr. Willie Lewis, Tynycae, Alltwen, ar ei ymadawiad am Awstralia. Cawd yn y rhaglen wmbredd o ddatganu, adrodd, a chwareu offerynnol ar y berdoneg a'r crwth. Anrhegwyd Willie, ar ran a thros yr Eglwys, gan Mrs. Mary Edwards, a *Fountain Pen* destlus, ac atebodd yntau yn dyner ei deimlad ar ei fado a'i wlad (ond yn y gobaith y cai eto ddychwel), a'r canlyniad o hynny, ac y byddai iddo felus gofio y caredigion lu

adawodd ar ei ol yn Ngwalia hoff. Rhoddwyd anerchiadau gan y beirdd ac ereill, a dygwyd i ben waith y cyfarfod. Mr. Isaac E. Hopkin fu wrth y berdoneg.——Eto yn yr Ysgoldy nos Fercher, Rhagfyr 12, traddodwyd anerchiad ar "Robert Owen, ei Fywyd, a'i Waith," gan Mr. John L. Rees, Trebanos. Dangoswyd yn eglur waith y gwrthrych, a'r dylanwad mawr edy o'i ol. Crefa'r wlad a'r byd heddyw am ddynion da cyftelyb. Cadeiriwyd gan y Parch. D. G. Rees. Da genym wneud yn hysbys mai y brawd ieuanc, Mr. Isaac Emrys Hopkin, sydd yn cadw'r swydd o Ysgrifennydd i'r Gymdeithas Ddiwylliadol yn y lle, yr hon, erbyn hyn, sy'n gwneud gwaith da.

CWMSYCHBANT.—*Gwledd.*—Prydnawn Llun, Rhagfyr 24ain, rhoddwyd gwledd o dê i Eglwys y Cwm, ac i bobl yr ardal, ac hefyd i lawer o'r tuallan, gan Mrs. Oliver, Blaeneinon. Yr oedd Mrs. Oliver wedi gofalu nid yn unig fod y darpariaethau yn ddigon i ddiwallu pawb, ond hefyd fod y fath amrywiaeth yn y danteithion, fel yr oedd y wledd yn un ragorol iawn. Cafodd ei chynorthwyo wrth y byrddau gan Miss Oliver, ac hefyd gan foneddigesau caredig yr Eglwys. Gofalodd Mr. Oliver fod pob un yn cael tê, ac yr oedd ei serchogrwydd yn gwneyd i bawb deimlo fod yno groesaw mawr. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol. Arweiniwyd gan yr Henadur Josiah Jones, Garthowen, a gwnaeth ei waith mor fedrus a dymunol fel y cadwodd y dorf yn hollol weddaidd drwy'r cyfarfod. Canodd côr y lle o dan arweiniad Mr. James Thomas, Crossway, a chôr Penffordd, o dan arweiniad Mr. Evan Evans, Gwarcoeduchaf, a chôr Brynteg, o dan arweiniad Mr. John Jones, Rhuddlan, amryw o weithiau. Hefyd cafwyd diolchiadau am y tê, ac unawdau a deuawdau a phedwarawdau. Da oedd gan bawb weled Mr. Dewi Oliver, yr hwn sydd yn *clerk* mewn *Bank* yn Castellnedd, yn ein plith, ac yn edrych mor dda. Diolchodd y gweinidog am y tê, ac hefyd i'r Arweinydd. Wedi canu "Hen Wlad fy Nhadau," ymadawodd pawb, gan ddymuno i Mr. a Mrs. Oliver a'u teulu bob llwydd a hir oes.

CYFAILL.

Pwy ddaw yn ëofn drwy y drws,
Fel corwynt hyd y gornel?
Yn llwm ei lais, yn llawen wedd,
Yn drwst ar draed i'm harddel?
Hen Gyfaill calon, gyda chân
A llawen chwedl i'm llonni,
Cawn goffa'n gu y dyddiau fu,
Câf gynghor gwiw i'm 'ffoiddi.

Pwy eto ddaw ar ddistaw droed,
A'i law ar ysgafn glicied?
A'i welw rudd, a'i dyner lais,
A deigryn mor disgleiried?
Tra minnau yn fy siomiant dwys,
A'm calon brudd yn curo
Mewn cywair lleddf:—Fy nghyfaill mwyn
Ddaw'n addfwyn i'm cysuro.

A phwy sy'n ysgafnhau y baich
Wnaeth imi grynnu dano?
A phwy sy'n gwastatau y ffoddd
Wyf arni yn ymlwybro?
A phwy sy'n uno yn fy nghân,
A'i fron ar dân mewn llon fyd?
Fy nghyfaill hoff sy'n taro'r tant,
Anwylun yw'n fy ngwynfyd.

Wyt imi'n Seren yn fy nos,
Wyt felus hûn ar f'emrynt,
Wyt awel fwyn ar 'ngruddiau llaith
Wyt gysgod rhag y corwynt;
Tyneraf dant fy nghalon wyt,
Ac hebot ni fai hawddfyd,
Hen Gyfaill hoff! Hen Gyfaill pûr!
Wyt Berlyn Gwlith fy mywyd.

Dihewyd. NANCE EVANS.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —